YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN

*Nid da lle gellir gwell*

# Yr her:

Mae'r traeth yn le hyfryd i dreulio'ch amser yn ystod yr Haf. Digon o gyfle i greu atgofion a chael hwyl gyda teulu a ffrindiau – adeiladu cestyll tywod, nofio yn y môr, casglu cregyn, bwyta picnic a hufen-iâ!

Ond, yn anffodus yn ddiweddar mae rhai wedi dewis gadael sbwriel ar y traeth a'i adael yn anniben tost! Sut allwch chi helpu?



## Pwyntiau trafod i rieni:

- Ydych chi'n mwynhau treulio amser ar y traeth?
- Sawl traeth ydych chi wedi ymweld?
- Beth yw'r traeth agosaf?
- Sut ydych chi'n teithio i'r traeth?
- Pa weithgareddau ydych yn hoffi gwneud ar y traeth?
- Pryd fyddech yn ymweld â'r traeth?

# Cynllun pythefnos: Yr haf (Bl. 5 a 6)

<table>
<tr><th colspan="3">Rhaid gwneud... / Must do...</th></tr>
<tr>
<td>
<ul>
<li>Dysgu geiriau aml-ddefnydd – rhestr o 200 o eiriau ar wefan yr ysgol i’w ymarfer.</li>
<li>Darllen yn reolaidd– cofiwch drafod yr hyn a ddarllenoch – cymeriadau, rhagfynegiadau, trefnu digwyddiadau, ail-ddweud y stori, chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd.</li>
</ul>
</td>
<td>
<ul><li>Ymarfer Tablau Mathemateg (cofiwch i ddefnyddio TT Rockstars a J2Blast i ymarfer a chwarae yn erbyn eraill)</li></ul>
Bl 5 a 6 - Tabl 2 – 12
Adio a thynnu
Bl 5 i ddefnyddio rhifau 4 digid ee 3, 498 + 2,538 = / 5,794 – 3, 562
Bl 6 i ddefnyddio rhifau 4 digid a degolion e.e. 4.6 + 2.3 / 7.9 -3.2
Lluosi a rhannu gyda 10, 100 a 1000
Bl 5 i ddefnyddio rhifau 3 digid ee 280, 490,450, 654
Bl 6 i ddefnyddio rhifau 3 digid a degolion ee 456,732, 23.5
Adnabod a chyfri arian, talu am eitemau mewn nifer o ffyrdd
Darllen yr amser fesul munud.
<ul><li>Faint o amser mae rhywbeth yn para? ee. Pa mor hir mae rhaglenni teledu? - edrych ar amser dechrau a gorffen. Pa mor hir mae hi’n cymryd i goginio rhywbeth? Amcangyfrifpa mor hir mae gweithgareddau pob dydd yn eu cymryd.</li></ul>
</td>
<td>
<u>Cadw’n heini</u> – beth am ymuno â Joe Wicks' yn fyw sessions 9:00 — 9:30am ar Youtube (cofwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar ‘YouTube’)<br>
<u>Helpu</u> – Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb.<br>
<u>Trafod</u> - Sgwrsio gyda’ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.
</td>
</tr>
<tr><th colspan="3">Dylech wneud... / Should do...</th></tr>
</table>

| Gorsaf Iaith | | Cyfri a Chyfrifo | | Cwtsh Creadigol | |
|---|---|---|---|---|---|
| ⭐ | Meddyliwch eich bod ar eich gwyliau ym Mhorth Tywyn a'ch bod yn anfon cerdyn post at aelod o'ch teulu. Pa wybodaeth fyddech yn cynnwys? Cofiwch ysgrifennu yn gryno gan ychwanegu prif bwyntiau eich gwyliau hyd yn hyn a beth sydd gennych ar ôl i'w wneud. Templed ar gael i chi. | ⭐ | Mesurwch bellter rhwng dau bwynt ar y traeth. Amserwch eich hun yn symud o un pwynt i'r llall. Heriwch eich hun ac eraill i symud yn gyflymach. | ⭐ | Yn ystod y cyfnod o gaethiwo, mae data yn dangos ein bod wedi gwrando ar fwy o gerddoriaeth hapus nag arfer. Crewch rhestr chwarae o ganeuon sy'n cynrychioli'r haf. Ydyn nhw'n ganeuon hapus? Ydyn nhw'n sôn am yr haf/traeth/haul a.y.b? Allwch chi greu hyperddolen o YouTube ar gyfer eich caneuon i Powerpoint? Hefyd, gwnewch rhestr o'r caneuon yr ydych wedi dewis. |
| ⭐⭐ | Am fod cymaint o bobl yn dod i Borth Tywyn ar eu gwyliau, crewch bamffled i berswadio mwy i ddod yma. Cofiwch am ysgrifennu yn y person cyntaf. Bydd angen ansoddeiriau da i ddisgrifio yn ogystal â chyflythrennu fesul tri gair, e.e. Mae'n le da, deniadol a dymunol. (Gweler taflen rhestr wirio am fwy o syniadau. (Saesneg)). | ⭐⭐ | Trefnwch eich gwyliau delfrydol! Mae angen i chi gostio'r daith gan feddwl am yr awyren, gwesty, bwyd a gweithgareddau. Sawl aelod o'r teulu sydd yn mynd? Faint o arian sydd angen cynilo? | ⭐⭐ | Meddyliwch am lun sy'n meddwl 'Haf' i chi. Ceisiwch ail-greu eich llun ar y traeth gan ddefnyddio deunyddiau naturiol os y dymunir. Lanlwythwch eich lluniau ar ffurf sleidiau i Hwb neu gwnewch Pic Collage ac yna lanlwythwch eich llun i J2launch. |
| ⭐⭐⭐ | Ysgrifennwch stori ar y thema 'Fy Haf Delfrydol i'. Beth wnaeth yr haf yn berffaith i chi? Ysgrifennwch yn ffurf y gorffennol gan ychwanegu nifer o ddisgrifiadau da. Allwch chi gynnwys sgwrs rhwng y cymeriadau gan ychwanegu dyfynodau? Cyflwynwch eich gwaith mewn paragraffau ar bapur, ar Word neu ar J2e5. | ⭐⭐⭐ | Edrychwch ar becyn adnoddau haf blwyddyn 6. Cwbwlhewch y taflenni. | ⭐⭐⭐ | Dilynwch fideo cam wrth gam Orielodl ar YouTube i dynnu llun harbwr. Lanlwythwch eich lluniau i J2launch a chofiwch rannu eich lluniau gyda ni ar ein safle trydar: @parcytywyn ac hefyd @Orielodl. Cliciwch ar y linc i'w ddilyn: Harbwr Diogel. Pob lwc! |

**Gallaf wneud... / Can do...**

| | | |
|---|---|---|
| Heriau LEGO<br>Llyfrau sain David Walliams<br>Newsround - darllen y newyddio diweddaraf<br>ACTIV-I-TI — ar lein o 1:00yp<br>Science experiment<br>Science Investigations - STEM website stemsational.com<br>Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim<br>www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd<br>CVDTWINKLHELPS | Minecraft<br>Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg<br>Carol Vorderman – 'Mathsfactor'<br>Cip ar Fathemateg<br>SGILIAU — gemau i'w chwarae adref<br>Celf Helen Elliot - Pob dydd mercher a Gwener am3:00yp<br>Orielodl - fideo cam wrth gam<br>Criw Celf, Huw Aaron - pob dydd am 3y.p | Dawnsio gyda Oti Mabuse<br>PBSkids.org - Gemau Darllen i blant<br>BBC Bitesize<br>Hour of Code<br>Gwefan TopMarks Mathemateg<br>Gwefan MathsFrame Mathemateg<br>mathsalamanders.com |